

# CYNGOR GWYNEDD



## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	2 <sup>a</sup> il Rhagfyr 2021
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Penodi Swyddog Adran 151 Newydd
<b>Aelod Cabinet:</b>	Cynghorydd Nia Jeffreys
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol

### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Bod y Cyngor yn cadarnhau Dewi Aeron Morgan, darpar ddeilydd swydd Pennaeth Cyllid y Cyngor fel y Swyddog Adran 151 newydd ar gyfer yr Awdurdod oddi ar y 1<sup>af</sup> Ionawr 2022 ac hynny yn unol a gofynion Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972

### CEFNDIR

1. Bydd Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid presennol y Cyngor yn ymddeol yn hyblyg ar y 31<sup>a</sup>in o Ragfyr, 2021. Fel Pennaeth Cyllid, mae o wedi ymgymryd a'r swyddogaeth statudol o Swyddog Adran 151 o fewn y Cyngor ac felly, yn wyneb ei ymddeoliad, mae gofyn i'r Cyngor llawn benodi Swyddog Adran 151 newydd i ymgymryd a'r swyddogaeth honno oddi ar y 1<sup>af</sup> o Ionawr, 2022.
2. Dros yr wythnosau diwethaf, mae'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion wedi ymgymryd a'r dasg o benodi Pennaeth Cyllid newydd. Daeth y broses honno i'w therfyn ar y 26<sup>a</sup>in o Dachwedd 2021, pryd y bu i Dewi Aeron Morgan dderbyn y cynnig i ymgymryd a chyfrifoldebau a dyletswyddau Pennaeth Cyllid y Cyngor oddi ar y 1<sup>af</sup> o Ionawr, 2022.
3. Amlinellir swyddogaeth statudol Swyddog Adran 151 yn rhan 11.4 o gyfansoddiad y Cyngor yn unol ag arweiniad Deddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd y Swyddog yn;
  - Sicrhau cyfreithlondeb a doethineb ariannol y penderfyniadau a wneir
  - Gweinyddu materion ariannol
  - Cyfrannu at reolaeth gorfforaethol y Cyngor, yn enwedig trwy ddarparu cyngor ariannol proffesiynol.
  - Rhoi cyngor i'r holl Gynghorwyr ar faterion yn ymwneud â chwmpas pwerau a'r awdurdod i wneud penderfyniadau ynglŷn a chamweinyddiaeth, amhriodoldeb ariannol, uniondeb a'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, a bydd yn cefnogi a chynghori Cynghorwyr a Swyddogion yn eu rolau priodol.
  - Rhoi gwybodaeth ariannol i'r cyfryngau, aelodau'r cyhoedd a'r gymuned.
  - Ar y cyd â'r Swyddog Monitro, yn cynghori ynghylch pa un a yw penderfyniadau'r Cabinet yn unol â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi.

Gellir cadarnhau bod Dewi Aeron Morgan yn gymwys ar gyfer ei benodi i'r swyddogaeth yn unol ag Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

### **Barn y swyddogion statudol**

#### **Y Swyddog Monitro:**

O ran ffurfioldeb mae cadarnhau penodiad y Swyddogaeth Adran 151 yn fater i'r Cyngor. Dim sylwadau pellach o ran priodoldeb.

#### **Y Pennaeth Cyllid:**

Rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir i'r Cyngor llawn gadarnhau deilydd y swydd Pennaeth Cyllid fel Swyddog Adran 151 newydd y Cyngor.